Western Bay | Bae'r Gorllewin
Youth Justice and Early Intervention Service
Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid

# Rhaglen Adeiladu Sgiliau Bae'r Gorllewin



City and County of Swansea · Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr · Bridgend County Borough Council

Neath Port Talbot County Borough · Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Cyflwyniad

Datblygwyd Rhaglen Adeiladu Sgiliau Bae'r Gorllewin i roi cyfle i bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid ddatblygu eu sgiliau personol a'u sgiliau adeiladu tîm. Rydym yn cynnig gwasanaeth lle'r ydym yn dylunio ac adeiladu mannau ac offer chwarae pren pwrpasol i ysgolion a grwpiau cymunedol ledled ardal Bae'r Gorllewin.

Drwy'r broses ymgysylltu hon, mae'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn ennill profiad a gwybodaeth werthfawr o ran cynllunio prosiectau, sgiliau adeiladu, cyllidebu, iechyd a diogelwch, adfywio cymunedau ac yn bwysicaf oll, maen nhw'n cael profiad gwaith gwerthfawr y gallant ei ddefnyddio ar ôl iddyn nhw gwblhau'r rhaglen.

Gall Rhaglen Adeiladu Sgiliau Bae'r Gorllewin gynnig cynnyrch pwrpasol o ansawdd da am gost isel i ysgolion a grwpiau cymunedol, a hwnnw wedi'i ddylunio a'i adeiladu gyda chyfraniad uniongyrchol y bobl ifanc y cafodd ei ddylunio ar eu cyfer.



Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gofyn inni gyflawni prosiect i chi, neu i gael mwy o fanylion cysylltwch â:

Tyrone Hughes: ffôn symudol 07890 534178
swyddfa 01656 815655

e-bost: tyrone.hughes@bridgend.gov.uk

Kevin Reeves: ffôn symudol 07890534163
swyddfa 01656 815655

e-bost: kevin.reeves@bridgend.gov.uk





# Ysgol Gynradd Brynmenyn

Roedd gan Ysgol Gynradd Brynmenyn ardd nad oedd yn cael ei defnyddio, a phenderfynwyd gofyn i’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei datblygu. Un ffactor allweddol yn ein penderfyniad oedd eu bod yn cynnig gwasanaeth a oedd yn cynnwys syniadau dylunio ac yn rhoi gwerth ardderchog am arian. Rhoddwyd hefyd ystyriaeth i’r ffaith y byddai’r bobl ifanc y maen nhw’n gweithio gyda nhw yn elwa’n fawr ar gael rhywbeth adeiladol i ganolbwyntio arno.

Roedd yr holl fechgyn a gymerodd ran yn gwrtais ac yn falch iawn o’u gwaith, ac ar yr un pryd roedden nhw’n datblygu sgiliau defnyddiol. Gwnaed y gwaith i safon uchel iawn ac roedd lefelau goruchwyliaeth yn addas ac wedi’u rheoli’n dda.





Canlyniad hyn oedd ardal ardderchog, sy’n cael ei defnyddio’n helaeth gan y disgyblion i gyd ar gyfer amser tawel, chwarae rolau, dysgu egnïol a chwarae dychmygus. Mae’r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai hynaf o’r adran iau yn hoffi chwarae ar y llong ac yn y castell. A dweud y gwir, mae wedi dod yn ffordd wych i reoli ymddygiad amser chwarae gan fod ymddygiad da yn cael ei wobrwyo yn ystod yr amser egwyl nesaf.

Diolch i’r tîm i gyd.

Clare Dale

Pennaeth
Ysgol Gynradd Brynmenyn

# Ysgol Gynradd Llidiard

Mae tîm lleol Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr wedi adeiladu strwythur anhygoel o bren ar gyfer ein Meithrinfa, yn yr ardal chwarae meddal yn union y tu fas i'r ystafell ddosbarth. Roedd gan yr ysgol gysylltiadau agos â'r tîm eisoes drwy'r Ymddiriedolaeth "Groundwork" a oedd wedi gweithio yn yr ysgol yn barod, yn ailwampio a gwella ein Gwarchodfa Natur. Arweiniwyd y tîm gan yr un person, Tyrone Hughes, a chydgysylltodd â'r ysgol i wella pergola a osodwyd yn ardal y Feithrinfa pan adeiladwyd Meithrinfa newydd dair blynedd yn ôl. 'Doedd gan y pergola ddim diben ymarferol, 'doedd e ddim yn rhoi unrhyw gysgod ac roedd ar fin cael ei chwalu.



Ynghyd â chrefftwr proffesiynol, cynlluniodd Tyrone 'Gastell' pwrpasol gan ddefnyddio'r pergola fel ffrâm. O'r dechrau'n deg, rhoddwyd ystyriaeth i'r holl reoliadau Iechyd a Diogelwch o ran y gwaith adeiladu. Pan oedd y gwaith adeiladu'n digwydd, roedd yr oedolion ifanc yn cael eu goruchwylio'n llawn ac roeddynt yn gwrtais dros ben. Roedd y tîm yn gweithio ar y "Castell" ddau ddiwrnod yr wythnos a hefyd yn ystod y gwyliau. Cymerodd y prosiect chwe wythnos o'i ddechrau i'w ddiwedd. Talodd yr ysgol am y deunyddiau ond roedd y llafur a'r gwaith o reoli'r prosiect i gyd am ddim.

Mae ansawdd y gwaith o'r radd flaenaf. Mae gan Llidiard gastell sy'n weddus i dywysog a thywysoges, a hwnnw'n darparu cysgod rhag y glaw a'r haul ar gyfer 30 o ddisgyblion. Rydym nawr yn cynllunio ein prosiect nesaf!

**Pennaeth**

**Ysgol Gynradd Llidiard**

# Ysgol Gynradd Nant-y-moel

Crëwyd man chwarae mawr pren ar ffurf castell yn ein hysgol, gyda thyrau 13 troedfedd o uchder, diolch i waith a wnaed gan  Tyrone Hughes a nifer fechan o wirfoddolwyr ifanc. Mae'r strwythur hefyd yn cynnwys trên pren y gall y plant ddringo arno a chwarae ynddo.

Mae'r man chwarae newydd yn boblogaidd iawn gyda'n disgyblion ac roeddynt yn rhan o'r broses o'r cychwyn, drwy gael dweud eu dweud ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei adeiladu.

Roedd y prosiect o fudd i ddau grŵp: ysgol a dderbyniodd ychwanegiad rhagorol i'n maes chwarae am bris y deunyddiau, a grŵp o bobl ifanc a gafodd eu hannog i ddangos ymroddiad a dyfalbarhad er mwyn cwblhau prosiect y gallent fod yn falch ohono.



Alyson Jones

Pennaeth

Ysgol Gynradd Nant-y-moel



# Y Bont

“Roedd yn wych cael y tîm yn y Bont. Roedden nhw’n anhygoel. Roedden nhw’n gwrtais drwy’r adeg a chafodd popeth ei adael yn berffaith lân. Roedd y tîm yn hyblyg o ran anghenion y lleoliad o ddydd i ddydd a rhoddwyd ystyriaeth i anghenion y plant i gyd wrth adeiladu’r Arch. Cawsom y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm gydol yr holl broses. Fe wnaethant fwy na’r gofyn gan ragori ar ein disgwyliadau. Darparwyd adnodd ardderchog ar gyfer dysgu yn yr awyr iach, a gallwn ei ddefnyddio gydol y flwyddyn. Ni all y Bont ddiolch digon i’r tîm.”





Diolch / Many Thanks

Wendy Williams
Cydgysylltydd Gofal Plant

Y Bont
Ewenny Road,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 3HT
Rhif ffôn: 01656 646013

www.ybont.com